Chwaraeon RhCT
Sport RCT

12 Diwrnod y Nadolig 2021 - Enillydd 2il

# Clwb Rygbi Mini ac Iau Cilfynydd

Sefydlodd Clwb Rygbi Cilfynydd ei garfanau mini ac iau cyntaf dros yr haf eleni. Yn dilyn y galw gan y gymuned leol, dechreuodd y clwb gynnal sesiynau i blant dan 7 oed, dan 9 oed a dan 10 oed. Mae'r sesiynau wedi profi'n boblogaidd, gan ddenu bechgyn a merched i ymuno. Mae bron i 40 o blant wedi ymuno a rhoi cynnig ar chwarae rygbi. Mae'r plant yn mwynhau’r sesiynau ac yn edrych ymlaen at chwarae gemau. Mar llawer o wirfoddolwyr wedi rhoi cymorth, ar y cae a thu hwnt. Ym mis Hydref trefnodd y gwirfoddolwyr barti Calan Gaeaf i'r plant ac maen nhw'n edrych ymlaen at gael eu parti Nadolig cyntaf.

